



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Aseiad O Weithgaredd Rhyng- Ffydd Ymysg Cymunedau Ffydd Ar Lawr Gwlad Yng Nghymru

Ymchwil crynodeb

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 39/2012

Comisynwyd Adnoddau ar gyfer Newid, mewn partneriaeth a Sefydliad Datblygu Cymunedol, gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2011 er mwyn asesu gweithgaredd rhyng-ffydd ymysg cymunedau fydd ar y lawr yng Nghymru.

Cafodd yr ymchwil ei comisiynu i ddarparu tystiolaeth ar lefelau presennol o gyswllt rhyng-ffydd rheolaidd rhwng cymunedau ffydd gwahanol yng Nghymru, a faint o gefnogaeth sydd ar gyfer gweithgareddau o'r fath ymhlith pobl o wahanol ffydd.

Cyflwyniad

Amcanion cyffredinol y gwaith oedd:

- Asesu i ba raddau y mae cymunedau ffydd ar lawr gwlad yng Nghymru yn ymgysylltu yn gadarnhaol ac yn barhaus gyda'i gilydd (e.e mathau o weithgaredd, lefel o gefnogaeth cymunedol, cyfranogwyr, gwasgariad daearyddol) a pham.
- Darparu tystiolaeth o arfer da i'r Fforwm Cymunedau Ffydd, i gefnogi hyrwyddo gweithgaredd rhyng-ffydd priodol.
- Cynyddu gwybodaeth Llywodraeth Cymru am weithgaredd rhyng-ffydd, i'w galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am sut y gall ymgysylltu â grwpiau ffydd, a phwy ddylai fod yn rhan o fforymau megis y Fforwm Cymunedau Ffydd.

Roedd nodau'r gwaith ymchwil a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn defnyddio'r term rhyng-ffydd yn fras i ddisgrifio rhyngweithio rhwng unigolion o wahanol ffydd a rhwng unigolion o wahanol enwadau ffydd (ee Catholigion a Phrotestiaid o fewn Cristnogaeth).

Dadarsodi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Fodd bynnag, tynnodd yr ymchwil sylw at y gwerth o ddefnyddio'r ymadroddion 'rhyng-ffydd' (rhwng crefyddau) ac 'intra ffydd' (rhwng enwadau) yn y drefn honno.

Methodoleg

Y technegau a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth oedd:

- Adolygiad o lenyddiaeth.
- Arolwg holiadur copi caled ac ar ar-lein i grwpiau ffydd lleol.
- Cyfweiliadau grwpiau ffydd lleol.
- Cyfweiliadau rhanddeiliaid.
- Astudiaethau achos.

Canolbwyntiodd yr ymchwil ar y pynciau allweddol canlynol:

- Cymhelliant.
- Rhwystrau a galluogwyr.
- Canlyniadau.
- Mekanweithiau ar gyfer llif gwybodaeth.
- Natur gweithgaredd rhyng-ffydd ac intra ffydd.
- Dehongliad o 'rhyng-ffydd' ac 'intra ffydd'.
- Cynaliadwyedd y gweithgareddau.

Canfyddiadau

Terminoleg: Mae'r ymadrodd 'rhyng ffydd' yn un y mae pobl yn ei ddeall ac mae'n ymddangos mai dyma'r ymadrodd y dewisir ei ddefnyddio. Mae 'intra ffydd' yn cael ei gydnabod, ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin. Mae'n ymddangos yn hytrach fod 'rhyng enwadol' yn cael ei ddefnyddio'n fwy, yn arbennig gan Gristnogion. Mae gweithgaredd eciwmenaidd hefyd yn derm a ffafirir gan Gristnogion.

Y tu hwnt i'r 7 crefydd: Roedd nifer o achosion lle bu cyfranogwyr yn crybwyll eiddo ysbrydol eraill, megis Paganiaid, Derwyddon, Yr Oes Newydd. Nid oedd o fewn cwmpas yr astudiaeth hon i wneud unrhyw waith ymchwil ar y pwnc hwn. Mae cymaint o gwestiynau yn dal heb eu hateb, yn enwedig sut y gallai cymunedau o'r fath gymryd rhan mewn gweithgaredd rhyng-ffydd, a oes ganddynt unrhyw awydd i wneud hynny, ac a oes gan y 'sector' rhyng-ffydd ar hyn o bryd unrhyw awydd iddynt gael eu cynnwys.

Cynrychiolaeth: Daeth llun i'r amlwg yn is-genedlaethol o

weithgaredd rhyng-ffydd ar lefel ranbarthol, gydag unigolion allweddol yn arbennig o weithgar ac yn aros yn weithgar dros nifer o flynyddoedd. Roedd yn ymddangos bod yna ymdeimlad ynghylch sut y gallai hyn ei gwneud yn anodd i bobl eraill gymryd rhan, yn enwedig os nad ydynt yn arweinwyr cymunedol neu yn unigolion amlwg. Bydd cael y bobl 'iawn' i eistedd ar grŵp rhyng-ffydd yn heriol, oherwydd mae'n ymddangos y bydd gan wahanol bobl wahanol safbwyntiau o bwy yw'r bobl 'iawn' i wneud hyn.

Pwysigrwydd pobl allweddol:

Datgelodd y gwaith ymchwil sawl enghraifft o weithgarwch rhyng ffydd ar lefel leol nad oedd rhwng cynulleidfaoedd, ond rhwng unigolion. Mae'n ymddangos fod hon yn nodwedd bwysig iawn o weithgaredd rhyng ffydd ar lefel llawr gwlad, a bydd yn dylanwadu ar y ffordd fwyaf effeithiol y gellir ei gefnogi. Mae yna risg fod gweithgaredd rhyng ffydd ac intra ffydd yn berygl o ddirwyn i ben pan nad yw'r unigolyn allweddol hwn mwyach yn arwain, er enghraifft, pan mae'n symud i ffwrdd.

Cyllid: Nododd bron i hanner ymatebwyr yr arolwg fod diffyg cyllid yn rhwystr i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhyng-ffydd, a oedd yn gyfran uwch nag mewn perthynas â gweithgaredd intra ffydd. Roedd mewnbwn gwerthfawr gan wirfoddolwyr yn cael ei gydnabod, ond nodwyd hefyd bod terfyn i'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan wirfoddolwyr.

Pwysigrwydd daearyddiaeth: Y tu allan i'r prif drefi yn Ne Cymru a Wrecsam, nodwyd yn gyffredin mai ychydig iawn o aelodau o gymunedau ffydd lleiafrifol a geir. Yn yr ardaloedd hyn, mae'n llawer mwy anodd i'r cymunedau Cristnogol lleol estyn allan at y crefyddau eraill hyn, gan nad ydynt yn gwybod ble i ddod o hyd iddynt, er efallai eu bod yn adnabod rhai unigolion.

Pam?: I rai, ysbrydolir gweithgaredd rhyng-ffydd gan eu ffydd ac mae'n cael ei gyflawni fel rhan o ymarfer eu ffydd. Mewn achosion eraill, ceir ymgyrch sy'n seiliedig ar ffydd i sicrhau gwelliant yn y gymuned leol, a gellir cyflawni hyn trwy weithio gyda neu dros bobl o grefyddau eraill. Ar y cyfan

yng Nghymru, mae lefel y tensiynau cymunedol yn ymwneud â ffydd yn isel ac anaml y gwelid hyn fel y prif sbardun i weithgaredd rhyng-ffydd. Ond rhoddwyd enghreifftiau lle roedd pobl ffydd yn awyddus i wneud safiad i ddangos eu cefnogaeth i ffydd arall.

Gweithgaredd unwaith ac am byth neu weithgaredd parhaus?:

Mewn achosion lle roedd gweithgaredd rhyng-ffydd wedi ei symbylu gan ddigwyddiad negyddol, roedd y gweithgaredd yn fyrhoedlog, ac yn anaml yn arwain at weithgaredd parhaus. Ond pan oedd achosion o densiwn, roedd bod â chysylltiadau rhyng ffydd yn bodoli'n barod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae'n ymddangos fod tuedd i lefelau gweithgaredd rhyng-ffydd godi a disgyn mewn cylchoedd o ychydig flynyddoedd, yn ôl lefel y diddordeb lleol ac yn gysylltiedig â hyn, presenoldeb neu absenoldeb unigolion penodol sy'n cymryd rhan arweiniol yn y gwaith o drefnu gweithgareddau.

Natur y gweithgaredd rhyng-ffydd: Mae gweithgarwch rhyng-ffydd yn canolbwyntio ar ddeall

mwy am ffydd y naill a'r llall, gan adeiladu perthynas gyda phobl o ffydd arall, a gwneud pethau adeiladol ar gyfer y gymuned ehangach gyda phobl o ffydd arall. Mae'n ymddangos bod yr archwaeth mwyaf am ddeialog syml (yn hytrach na thrafod deunyddiau crefyddol a dadleuon diwinyddol manwl) ac am weithgareddau ar y cyd er budd y gymuned.

Argymhellion

Gyda'r prif sbardun am weithgaredd rhyng ffydd ar lawr gwlad yn dod oddi wrth unigolion, mae'r camau gweithredu posibl yn canolbwyntio ar gefnogi a chysylltu gweithgaredd rhyng-ffydd sydd wedi'i ysbrydoli gan unigolion.

Adeiladu rhwydwaith o fentoriaid rhyng-ffydd

Yr angen gwirioneddol yma yw cefnogi'r unigolion hynny sydd eisoes yn chwarae rhan allweddol mewn gweithgaredd rhyng-ffydd lleol ac is-ranbarthol, a datblygu gallu o fewn y 'sector' i ddod â phobl eraill i mewn y tu ôl iddynt.

Mae cynrychiolwyr rhanbarthol Cyngor Rhyng-ffydd Cymru yn

cynnig sylfaen i adeiladu arno, ac ymhen amser, gallai mwy o unigolion gael eu recriwtio.

Byddai eu rôl yn cynnwys: rhannu gwybodaeth rhwng ymgyrchwyr ar lawr gwlad, a chyda gweithredwyr rhanbarthol a chenedlaethol; galluogi a chefnogi gweithgarwch ar lawr gwlad; adeiladu capasiti ar gyfer olyniaeth drwy ddod o hyd i bobl newydd a gwella sgiliau gweithredwyr presennol.

Mae angen trafodaeth am ble mae'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am y rhwydwaith o fentoriaid rhyng-ffydd yn gorwedd. Ond mae angen cydgysylltu ac arweiniad ar gyfer cynllun fel hwn, felly byddai angen iddo gael ei gynnwys o fewn corff sy'n bodoli'n barod. Efallai mai Cyngor Rhyng-ffydd Cymru yw'r 'cartref' mwyaf naturiol, ond wrth feddwl yn fwy cyffredinol, gallai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gynnig manteision hefyd. (Sylwer na chysylltwyd ag un o'r ddau sefydliad am hyn eto).

Mae angen gwneud gwaith sylweddol pellach i ddatblygu o'r cysyniad hwn hyd at ei

weithredu, ac efallai y byddai cyfnod dichonoldeb dros dro yn synhwyrol.

Darparu deunyddiau cymorth wedi'u targedu

Gyda neu heb rwydwaith o fentoriaid rhyng-ffydd, mae angen gwybodaeth y gellir ei defnyddio i hyrwyddo gweithgaredd rhyng-ffydd yn gyffredinol, yn ogystal â deunyddiau cymorth ymarferol mwy penodol. Y mae deunyddiau ar gael ar hyn o bryd, megis y rhai a gyhoeddwyd gan y Rhwydwaith Adfywio seiliedig ar Ffydd a'r Rhwydwaith Rhyng-ffydd, a allai fod yn addas, neu efallai y bydd angen deunyddiau ychwanegol sy'n adeiladu ar y rhain neu sy'n benodol i'r cyd-destun Cymreig.

Efallai y byddai crynodeb 'sgleiniog' neu 'hawdd i'w darllen' o fanteision gweithgaredd rhyng-ffydd lleol, gan gynnwys rhai enghreifftiau, a gwybodaeth i gyfeirio pobl at ffynonellau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol yn ddefnyddiol. Gallai hwn gael ei ddosbarthu'n eang gan gymunedau ffydd, y sector gwirfoddol a chyrrff sector cyhoeddus lleol.

Hefyd, dylid bod â chanllawiau, yn darparu gwybodaeth gryno ac ymarferol am sut i drefnu gwahanol fathau o weithgaredd rhyng-ffydd lleol. Gallai hyn gynnwys peryglon posibl a sut i'w hosgoi, syniadau ar gyfer gweithgareddau, esboniadau o dechnegau syml, ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach, ac astudiaethau achos.

Gwella mecanweithiau i glywed oddi wrth bobl ar lawr gwlad

Mae'r ymchwil yn dangos mai'r angen mwyaf yw gwella llif gwybodaeth o lawr gwlad 'i fyny' i lefel genedlaethol. Byddai hyn yn rhoi mwy o ddyfnder o wybodaeth i weithredwyr ar lefel genedlaethol a byddai'n cyfrannu at weithgareddau a gwneud penderfyniadau yn genedlaethol sy'n cefnogi gwaith lleol.

Gyda rhwydwaith o fentoriaid rhyng-ffydd ar waith, byddai mecanwaith yn bodoli ar gyfer cyfathrebu 'tuag i fyny', gan gynnwys adrodd yn bersonol a thrwy bapurau briffio i gyrff rhyng-ffydd cenedlaethol.

Awgrym arall yw rhyw fath o 'wobr neu gydnabyddiaeth' genedlaethol ar gyfer arfer da. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r Wythnos Ryng-ffydd. Mae'n bwysig nodi na fwriedir i hyn fod yn gystadleuaeth, ond yn hytrach yn ffordd o dynnu sylw at arferion da.

Gallai meini prawf ar gyfer barnu gynnwys y posibilrwydd o drosglwyddo syniad, neu arloesedd, i wahanol gyd-destunau, e.e cymunedau gwledig neu drefol.

Awdur: Irene Evison (Adnoddau ar gyfer Newid), Daniel Pearmain (Sefydliad Datblygu Cymunedol)

ISBN: 978-0-7504-8165-6